# CYFARFOD BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD RHWNG AELODAU PWYLLGOR PENSIYNAU CYNGOR GWYNEDD A CHYNRYCHIOLWYR Y CYFLOGWYR A'R UNDEBAU, 27.07.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John G. Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Trevor Edwards, W. Tudor Owen a'r Cynghorydd Margaret Lyon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)

**Hefyd yn bresennol -** Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Uwch Swyddog Pensiynau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor) (Cyngor Gwynedd); David Elis-Williams a Diana Burns (Cyngor Sir Ynys Môn); Rhodri Evans a Tim Pritchard (Coleg Menai), Huw Trainer (Heddlu Gogledd Cymru), M. Norton (Coleg Llandrillo), P.R. Brooks (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Eiry Davies (Cartrefi Conwy), Mandy Evans (Cyngor Tref Abergele), Jo Worrall (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Gwyn Hughes (Cyngor Dinas Bangor), Dan Henshall a David O'Neill (Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy), Mark Stevens (GMB), Lynn Patterson (Cynnal) a Paul Potter (Hymans Robertson)

**Ymddiheuriadau -** Y Cynghorwyr Simon Glyn, Keith Greenly-Jones, J.W. Jones (Cyngor Gwynedd); Y Cynghorydd Tom Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) ac Isobel Watson (Cyngor Tref Porthaethwy)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd John G. Jones yn gadeirydd am y cyfarfod.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd W. Tudor Owen yn is-gadeirydd am y cyfarfod.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

## 4. Y GRONFA BENSIWN

Cyn cyflwyno'r adroddiad blynyddol, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at farwolaeth sydyn y Cynghorydd J.R. Jones ddiwedd mis Mawrth. Bu'r diweddar Gynghorydd J.R. Jones yn aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ers ad-drefnu yn 1996 ac yn gadeirydd am ddwy flynedd. Talodd deyrnged iddo am ei wasanaeth i'r Pwyllgor Pensiynau tros nifer o flynyddoedd.

Cyflwynoddd y Cyfarwyddwr Corfforaethol adroddiad blynyddol y Cynllun Pensiwn am 2010/11 oedd yn cynnwys:

- adolygiad y flwyddyn
- tueddiadau diweddar
- adroddiad rheoli yn crynhoi prif nodweddion gweinyddu'r cynllun
- sefyllfa actiwaraidd y gronfa
- trefniadau gweinyddol a chadw
- amlinelliad o'r pwerau buddsoddi a'r dull o reoli buddsoddiadau
- crynodeb o'r perfformiad buddsoddi
- datganiad o egwyddorion buddsoddi a strategaeth cyllido
- manylion y strwythur rheoli
- ystadegau aelodaeth
- manylion am y cyflogwyr sy'n rhan o'r gronfa
- datganiad o gyfrifon 2010/11 a nodiadau i'r cyfrifon
- atodiadau yn cynnwys datganiadau polisi cyfathrebu a llywodraethu, datganiad cydymffurfiad â'r drefn lywodraethol, datganiad o egwyddorion buddsoddi a'r strategaeth cyllido

Rhoddodd sylw penodol i brif faterion yr adroddiad sef:

- Bod 2010/11 wedi bod yn flwyddyn brysur gyda nifer o newidiadau ar y gweill a fyddai'n newid golwg y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- Nododd i'r llywodraeth ymrwymo i leihau'r baich ariannol mae pensiynau sector gyhoeddus yn eu gosod ar y pwrs cyhoeddus ac fe welwyd sefydlu comisiwn annibynnol i adolygu fforddiadwyedd tymor hir cynlluniau pensiwn o'r fath.
- Fe welwyd y dangosydd uwchraddio pensiynau yn newid o RPI i CPI ac fe gyhoeddodd yr Arglwydd Hutton o Furness ei adroddiad oedd ymysg pethau eraill yn argymell symud i gynlluniau cyflog cyfartalog tros fywyd gwaith yn hytrach na'r cynlluniau cyflog terfynol presennol. Nododd i'r llywodraeth weithredu ar yr argymhellion tymor byr yn yr adroddiad interim ac iddynt gyhoeddi cynigion i godi cyfraniadau gweithwyr 3% ar gyfartaledd. Datganwyd pryderon ynglyn â'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar lefelau aelodaeth yn y cynlluniau a allasai greu anawsterau cyllido pellach os byddai niferoedd sylweddol yn gadael y cynlluniau.
- Wrth son am berfformiad yr uned weinyddol, nododd y cynigiwyd 105 o sesiynau syrjeri yn ystod y flwyddyn ac iddynt fod yn boblogaidd iawn gyda'r aelodau. Nododd hefyd bod perfformiad yr uned yn erbyn y targedau perfformiad yn galonogol ac os oedd unrhyw un yn ystyried y dylid fod yn mesur rhywbeth gwahanol yna croesewir clywed ganddynt gan ei bod yn ceisio mesur yr hyn sy'n bwysig i aelodau a chyflogwyr.
- Prisiad y gronfa. Nododd y cwblhawyd prisiad y gronfa fel ar 31 Mawrth 2010 yn ystod 2010/11 ac i'r lefel gyllido aros yr un fath â'r prisiad blaenorol ar 31 Mawrth 2007, sef 84%. Dengys gwybodaeth ynglyn â lefel cyllido cynlluniau pensiwn awdurdodau lleol eraill sy'n gleientau i actiwari'r gronfa, bod y lefel canrifol wedi gostwng o 85% i 75% rhwng 2007 a 2010. Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal y lefel gyllido yn llwyddiant arwyddocaol. Derbyniwyd hefyd adroddiad yn ddiweddar gan yr actiwari ar y profiad a gafwyd ers cynnal y prisiad sy'n awgrymu bod y lefel cyllido wedi codi i oddeutu 87% erbyn 31 Mawrth 2011 ac 'roedd hynny'n newyddion calonogol.
- Nododd fodd bynnag mai'r cyfraniad cyflogwr oedd fwyaf pwysig i'r cyflogwyr a llwyddwyd i gadw'r cynnydd yn y cyfraniad hwnnw i'r lleiafswm posibl tra'n cadw agwedd ddarbodus tuag at y gronfa. Nodwyd mai 22.1% oedd y ffigur cyffredinol ar gyfer y gronfa tra bod ffigur canolrifol cleientau Hymans yn 25.4%.
- Aeth ymlaen i egluro sut oedd y gronfa wedi dyranu ei asedau cyn son am berfformiad.

- Yn flynyddol fe baratoir tabl cynghrair sy'n rhestru Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol yn ôl eu perfformiad buddsoddi yn ystod y flwyddyn ariannol. Allan o'r 85 cronfa bensiwn sy'n tanysgrifio i'r gwasanaeth, 'roedd perfformiad Gwynedd yn safle 34, sef 40fed canraddol gyda perfformiad y gronfa yn +8.5% o'i gymharu â'r cyfartaledd o +8.1% ac yn cymharu yn erbyn y meincnod a osodwyd o 7.8%.
- Nododd nad oedd y perfformiad tros dair blynedd mor galonogol a thra 'roedd yna resymau amlwg tros hynny, 'roedd y pwyllgor yn ceisio cymryd camau i leddfu'r sefyllfa.
- O gymryd sefyllfa'r gronfa a'i chymharu gyda perfformiad y cyfartaledd yn y rhestr tablau cynghrair, fe ellir asesu bod perfformiad Cronfa Gwynedd yn cynrychioli perfformiad uwchben y sefyllfa cyfartalog cyfwerth â thua £119m ers 2003.
- Bod yr wyth Cronfa Bensiwn yng Nghymru yn trafod y posibilrwydd o ostwng nifer y cronfeydd pensiwn yng Nghymru. Pan geir ymateb, fe ymgynghorir â holl aelodau'r gronfa.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr a'i staff am adroddiad eglur a chynhwysfawr.

Gwahoddwyd cwestiynau o'r llawr.

**Cwestiwn gan Mr David Elis-Williams, Cyngor Sir Ynys Môn**
Nododd mai'r meincnod a osodwyd yw dychweliadau ar arian parod a gofynnodd oes oedd yna feincnod mwy priodol i fesur perfformiad mewn bondiau. Nododd hefyd bod y portffolio bondiau yn ymddangos fel eu bod wedi eu cyfyngu i'r Deyrnas Unedig a chyfeiriodd at un o amcanion y polisi cyllido sef *"peidio â rhwystro strategaeth fuddsoddi'r gronfa yn ddiangen, fel y gallai'r Awdurdod Gweinyddol geisio gwneud y gorau o'r enillion ar fuddsoddiadau (a thrwy hynny leihau cost y buddiannau)am lefel briodol o risg".* Gofynnodd felly pam y rhwystrir y rheolwyr rhag buddsoddi mewn bondiau tramor.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol pan benododd y Pwyllgor Pensiynau, Insight 'roedd dau ddewis gerbron sef dewis meincnod sy'n gysylltiedig â bondiau yn gyffredinol neu cael meincnod yn seiliedig ar arian. Penderfynodd y pwyllgor y dylid sefydlu meincnod yn gysylltiedig ag arian oherwydd pan fydd bondiau yn llwyddo a.y. fe ddylai tros gyfnod o amser i feincnod o 2% uwchben arian fod yn gyfystyr i'r hyn y disgwylir i fondiau perfformio. Fodd bynnag, pan fydd bondiau'n colli gwerth yna fe fyddai meincnod fel arian + 2% yn debygol o fod yn positif ac felly rhoddir pwysau ar y Rheolwr Bondiau nid yn unig i ddewis pa fondiau y dylid buddsoddi ynddynt ond mae'r hawliau ganddo hefyd i fynd ar ôl dulliau eraill o fuddsoddiad sydd ddim yn ecwiti. Rhagwelwyd y byddai hyn yn rhoddi elfen o warchodaeth i ni pan fyddai dychweliadau bondiau yn troi'n negyddol. Nododd bod dychweliadau bondiau wedi bod yn positif hyd yma ac ni welwyd gwir werth y meincnod hwn eto.

Mewn ymateb i'r cwestiwn parthed y bondiau tramor hysbysodd Paul Potter (Hymans Robertson) y caniateir i'r rheolwyr, fuddsoddi os y dymunent, mewn bondiau tramor, pe gwelir gwerth i wneud hynny.

**Cwestiwn gan Mrs M.Norton, Coleg Llandrillo**
Mewn perthynas â dyraniad asedau, gofynnodd os y bwriedir cadw at 10% ar gyfer eiddo neu â yw'r canran hwn yn rhy uchel ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i'r cwestiwn, hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y ceisir cadw at 10%. Nododd bod y gronfa ar hyn o bryd ychydig dan bwysau o safbwynt eiddo ac efallai y bydd angen rhoddi mwy o arian yn y gronfa ar ei gyfer. Oddeutu dwy flynedd yn ôl 'roedd

angen rhoddi rhagor o arian ar gyfer eiddo ond yn hytrach na'i roddi yn uniongyrchol ar gyfer eiddo, fe'i roddwyd mewn cwmniau ecwiti sy'n buddsoddi mewn tir.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 2.40pm.